------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Mawrth 2018

Amser: 14.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.45)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(14.45 - 14.55) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru**

(Tudalennau 4 - 6)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14.55)

Eitemau 4 & 5

## 4 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(14.55 - 16.00) (Tudalennau 7 - 50)

PAC(5)-09-18 Papur 1 - Adroddiad drafft

## 5 Caffael Cyhoeddus: Ystyried Cylch Gorchwyl yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus

(16.00 - 16.30) (Tudalen 51)

PAC(5)-09-18 Papur 2 - Cylch Gorchwyl

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Mawrth 2018

Amser: 14.06 - 15.23

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Nick Selwyn<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC a Rhianon Passmore AC. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (22 Chwefror 2018)**

**2.2 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**2.3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (26 Chwefror 2018)**

**2.4 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (27 Chwefror 2018)**

## 3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Gohebiaeth y Pwyllgor

3.1 Trafododd yr Aelodau y llythyr a gafwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a oedd yn egluro nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 5 Chwefror.

3.2 Trafododd yr Aelodau y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Nodwyd bod y Clercod yn paratoi adroddiad drafft i'w ystyried.

## 4 Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar system wybodeg GIG Cymru.

4.2 Roedd yr Aelodau eisoes wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn. Nodwyd y byddai sesiynau tystiolaeth yn cael eu trefnu ar gyfer dechrau tymor yr haf.

## 5 Addasiadau Tai: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar addasiadau tai.

5.2 Cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn yn ystod tymor yr haf. Cytunwyd y byddant yn cysylltu â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn sicrhau na fydd yr ymchwiliad hwn yn gorgyffwrdd ag unrhyw ymchwiliad y bydd y Pwyllgor hwnnw yn ei gynnal.

## 6 Blaenraglen waith - Haf 2018

6.1 Trafododd yr Aelodau y rhaglen waith ar gyfer tymor yr haf cyn cytuno arni.

Eitem 2.1

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/MR

12 Mawrth 2018

Annwyl Mr Ramsay

**Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig**

Yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf a ddarperais ym mis Awst 2017, rwy'n darparu gwybodaeth bellach ar gyfer y chwe mis diwethaf.

Mewn perthynas ag amseroedd aros, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £50 miliwn pellach yn 2017/18 i gynorthwyo byrddau iechyd i adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac i leihau ymhellach nifer y cleifion sy'n disgwyl dros 36 wythnos, y rheini sy'n disgwyl dros wyth wythnos am wasanaeth diagnosteg a'r rheini sy'n disgwyl dros 14 wythnos am wasanaethau therapi erbyn diwedd mis Mawrth. Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd gan y byrddau iechyd yn dangos y gallai'r ffigurau ar gyfer nifer y bobl sy'n aros dros 36 wythnos ddangos gwelliant o'i gymharu â ffigurau Mawrth 2017. Mae byrddau iechyd hefyd yn gorfod ymateb i'r galw am ofal heb ei drefnu, sy'n cael ei effeithio'n sylweddol gan dywydd gaeafol - ac fel gweddill y DU rydym wedi gweld y pwysau'n cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rhaid rhoi blaenoriaeth i gleifion brys, ac mae hynny wedi cael rhywfaint o effaith yn y tymor byr ar y gweithgarwch craidd ym maes gofal dewisol. Rwy'n hyderus y bydd y byrddau iechyd mewn sefyllfa well ym mis Mawrth 2018 nag yr oeddent ym mis Mawrth 2017.

Os bydd y lefel perfformiad hwn yn cael ei gyflawni, bydd y sefyllfa o ran y rheini sy'n disgwyl dros 36 wythnos ar ddiwedd mis Mawrth 2018 y perfformiad gorau ers mis Mai 2013. Yn ogystal, bydd gwelliannau'n cael eu gweld yn yr amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi erbyn diwedd mis Mawrth. Unwaith eto, os bydd y byrddau iechyd yn cyflawni eu gweithgaredd ychwanegol a gynlluniwyd, bydd y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth y gorau ers mis Mehefin 2009 a bydd y sefyllfa o ran gwasanaethau therapi y gorau ers mis Medi 2011. Rwyf wedi gwneud fy nisgwyliadau'n glir i brif weithredwyr y byrddau iechyd nad



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@gov.wales

Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

wyf am weld dirywiad yn y perfformiad o fis Ebrill ac y bydd angen parhau i wneud gwelliannau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

O ran yr agweddau eraill ar yr adroddiad gwreiddiol ar amseroedd aros yr oedd angen ymdrin â nhw; mae'r rheolau a'r diffiniadau ynghylch sut i reoli claf ar lwybr o atgyfeiriad i driniaeth wedi'u rhannu â'r GIG a gwnaed diwygiadau bellach yn dilyn adborth. Bu'r rhaglen 1000 o Fywydau yn gweithio ar ddiweddaru'r *Canllaw ar Arferion Da – cleifion allanol* ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth.

Gan symud i wasanaethau orthopedig; mae'r gwaith o reoli galw a chapasiti yn parhau i fod yn rhan allweddol o Fwrdd Orthopedig Cymru, ac mae'r byrddau iechyd yn adrodd iddo bob mis. Mae'r metrigau data bellach wedi'u llwytho ar lwyfan ar-lein sy'n annog bod data yn dryloyw ac agored, er bod heriau o hyd o ran adrodd ar ddata is-arbenigol a chadernid y data. Fodd bynnag, mae dadansoddiad manwl o'r heriau o ran galw a chapasiti wedi'i gynhyrchu a'i rannu gyda Phrif Weithredwyr y GIG; mae hwn yn cyfleu'n glir yr heriau o ran galw / gweithgaredd yn y maes hwn. Cyfarwyddwyd y byrddau iechyd i fynd i'r afael â hyn yn eu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig (CITC), gyda chefnogaeth gweithio'n rhanbarthol. Bydd dadansoddiad wedi'i ddiwygio'n cael ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf a'i drafod gyda Phrif Weithredwyr y GIG.

Ym mis Medi 2017, sefydlodd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio ffocws tymor byr ar weithgaredd newid gwasanaethau drwy ad-drefnu'r system apwyntiadau dilynol. Cytunodd Bwrdd Orthopedig Cymru, o ran gwasanaethau orthopedig, mai'r maes a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar gapasiti fyddai lleihau apwyntiadau dilynol ar gymalau mawr. Ceir tua 2,400 o apwyntiadau dilynol bob mis ledled Cymru, ac mae bwlch galw a gweithgaredd o tua 500 o gleifion allanol pob mis. Ceir tystiolaeth a chonsensws clinigol cynyddol nad oes angen apwyntiadau dilynol wyneb yn wyneb pellach ar y mwyafrif o'r cleifion hyn ac arddangosir hyn drwy gyfraddau 'Ni Fynychwyd' uchel mewn rhai byrddau iechyd (mae'r apwyntiadau hyn dros un flwyddyn). Disgwylir i'r rhain gael eu halinio a'u cyflwyno'n glir yng ngwaith cynllunio CITC byrddau iechyd.

Disgwylir i'r byrddau iechyd ddarparu'r effaith gyflawn o'r gweithgaredd hwn erbyn mis Rhagfyr 2018, gyda gostyngiadau'n cael eu gweld pob mis o fis Ebrill. Mae'r modelu'n seiliedig ar y dull ail-ddylunio a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, lle nad oes angen apwyntiad dilynol ar 90% o gleifion cluniau a phengliniau. Mae gweithrediad y Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (MCAG), a'r clinigau rhithwir, yn hanfodol i lwyddiant y gweithgaredd hwn.

Mae'r MCAG, y Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (MPAG) a'r rhaglen Effeithlonrwydd, a sefydlwyd i wneud cynnydd gyda'r casgliad o fesurau canlyniadau a phrofiadau a adroddir gan gleifion ledled GIG Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y misoedd diwethaf. Mae'r datrysiad yn y cartref ar waith mewn pedwar bwrdd iechyd, gyda nifer o offerynnau ar gael ar draws gwahanol arbenigeddau; mae'r achosion o ehangu i feysydd casglu newydd hefyd yn cynyddu. Ceir rhai risgiau gweithredu lleol y mae'r byrddau iechyd yn gweithio drwyddynt i sicrhau'r gostyngiad a ddymunir mewn apwyntiadau dilynol. Gan gydnabod bod hon yn rhaglen uchelgeisiol sydd angen amserlen hirach i wireddu'r manteision a ddisgwylid pan gychwynnwyd hi, rydym yn cymryd camau hefyd i wneud yn siŵr bod y rhaglen yn cydweddu'n well â'r gwaith gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddwyd rhifyn ffurfiol o Gylchlythyr Iechyd Cymru yn darparu canllawiau ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol. Hwn ddylai fod y gwasanaeth rhagosodedig a'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob atgyfeiriad gan bob ymarferydd cyffredinol, Ymgynghorydd, Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a

Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol nad ydynt yn rhai rhewmotalegol, yn ganser tybiedig brys neu’n achosion brys.

Gwnaed asesiad llinell sylfaen yn erbyn y metrigau data o fis Rhagfyr 2017. Bydd y cynnydd yn erbyn y metrigau hyn yn llunio eitem agenda reolaidd ar Fwrdd Orthopedig Cymru a disgwylir iddo gael effaith ar y llwybrau atgyfeirio ar gyfer cyflyrau orthopedig ledled Cymru. Cynhelir y bwrdd orthopedig nesaf ym mis Mawrth 2018 a bydd yn cael adroddiad cynnydd ar y metrigau.

Ym mis Ionawr 2018, cytunodd y Bwrdd Rhaglen Gofal wedi’i Gynllunio Cenedlaethol mai cluniau a phengliniau fydda’r maes is-arbenigedd nesaf i fod yn destun ymarfer costio gwerth, i’w gynnal gan y Cyfarwyddwyr Cyllid.

Rwy’n gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi’r sicrwydd sydd ei angen arnoch fod cynnydd yn parhau i gael ei wneud.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon